


EGLWYS TEILO SANT, AMGUEDDFA WERIN CYMRU

DYDD MAWRTH 21 MEHEFIN 2011

DYDD IAU 23 MEHEFIN 2011

OFFEREN Y FENDIGAID FORWYN FAIR

YN DILYN Y DREFN A LUNIWYD YN
EGLWYS GADEIRIOL CAERSALLOG AC A DDEFNYDDID
MEWN EGLWYSI YNG NGHYMURU YN YSTOD YR
OESOEDD CANOL DIWEDDAR



Y
PROFIAD
O ADDOLI

Roedd y profiad o addoli yn yr oesoedd canol yn wahanol i'r arfer modern. Yn yr Offeren, safai'r offeiriad a'i gynorthwywyr yn aml ymhell oddi wrth y bobl, ac o'u golwg. Roedd awra o ddirgelwch yn perthyn i'r hyn a wnaent. Roedd ar wahân, mewn rhan arbennig o'r eglwys; Lladin oedd iaith yr hyn a ddywedid neu a genid – iaith nad oedd ond ychydig yn ei deall (neu'n ei chlywed); a mynegid llawer mewn ystumiau neu mewn gweddi na chlywid mohoni – mor ddifrifddwys fel nad oedd neb ond yr offeiriad a Duw yn ei rhannu.

Yr offeiriad a'i gynorthwywyr a arweiniai'r Offeren ganoloesol. Nid oedd gan y bobl unrhyw ran weithgar; byddent hyd yn oed yn siantio darlleniadau'r Beibl wrth wynebu i ffwrdd oddi wrth y bobl. Gyda rhai eithriadau prin iawn (e.e. Sul y Pasg), dim ond yr offeiriad a gâi gymun. Y disgwyliad oedd y byddai'r bobl yn dod i glywed yr Offeren. Felly, nid oes llawer i'w weld o ganol yr eglwys heddiw – a dyna oedd yn wir yn yr Oesoedd Canol.

Fodd bynnag, mae nifer o destunau canoloesol yn rhoi arweiniad ynglŷn â sut y dylai'r bobl ymddwyn, gweithredu a gweddio yn ystod yr Offeren. Mae un o'r testunau hynny'n dwyn y teitl *The Layfolks' Mass Book*. Mae'r nodiadau sy'n dilyn yma'n seiliedig ar ei gynnwys.

Yn ystod yr Offeren, mae croeso ichi nodi'r cynnwys, neu ddilyn eich greddfau eich hun. Peidiwch â theimlo'n rhwym wrtho – na theimlo bod rheidrwydd arnoch i aros am y gwasanaeth cyfan. Yn ôl adroddiadau cyfoes, rydym yn gwybod bod rhai pobl yn dod yn hwyr a/neu'n ymadael yn gynnar!

OFFEREN Y FENDIGAID FORWYN FAIR

TREFN GRYNO O'R OFFEREN A GLYWID

Yntred

Kyrie eleison

Gloria in excelsis

Colect(au)

Epistol

Graddolen

Aleliwia

Dilyniant

Efengyl

Credo

Antiffon yr Offrwm

Y gwahoddiad i'r bobl weddi dros yr offeiriad (distaw)

Sursum Corda a Rhaglith

Sanctus a Benedictus

Canon yr Offeren (yn ddistaw)

Dyrchafiad Aberth yr Offeren (wedi'i arwyddo gan y gloch)

Gweddïau terfynol y Canon (yn ddistaw, ar wahân i'r adrodd olaf)

Gweddi'r Arglwydd

Agnus Dei

Rhannu'r Llech Gusan ymysg y clerigwyr a'r bobl

Antiffon y Cymun

Gweddi Ôl-Gymun

Ite missa est

Efengyl Olaf

Yr offeiriad sy'n adrodd yr eitemau sydd wedi'u mewnoli, ac eithrio'r Epistol (is-ddiacon), yr Efengyl (diacon) ac Ite Missa est (diacon).

YR OFFEREN YN FANWL

YN DILYN PATRWM YR ADDOLIAD A NODWYR YN THE LAYFOLKS' MASS BOOK I'R BOBL DDILYN YNG NGHANOL YR EGLWYS

Mae'r cantorion yn siantio'r **Yntred**, ac yna **Kyrie eleison**. Aiff y clerigwyr i mewn gyda'u cynorthwywyr. Cyfarwyddir y bobl i benlinio pan fydd yr offeiriad yn cerdded i mewn.

Mae'r offeiriad yn sefyll i gyflwyno ei gyffes i bawb sy'n bresennol, ac mae'r diacon a'r is-ddiacon yn cyffesu wrtho ef. Cyfarwyddir y bobl i gyffesu eu pechodau, ac (fel y gallant gael y bydd), i adrodd Gweddi'r Arglwydd, cyfarchiad yr angel wrth Mair ('Ave Maria gratia plena' – 'Henf-fych Fair, lawn gras') a Chredo'r Apostolion.

Wedi'r gyffes, mae'r clerigwyr yn agosáu at yr allor. Fel y gwnânt, mae'r bobl yn sefyll, tra bo'r clerigwyr yn adrodd yr Yntred a Kyrie eleison wrth yr allor.

Mae'r offeiriad yn llafarganu **Gloria in excelsis**. Anogir y bobl i wneud cân yr angylion yn eu calon eu hunain.

Mae'r offeiriad yn llafarganu'r **Colect** (gweddi arbennig y diwrnod). Yna, mae'r is-ddeacon cynorthwyol yn siantio'r **Epistol** (darlleniad Beiblaidd). Yna, mae'r côr yn canu siantau'r y **Raddolen**, yr **Aleliwia** a'r **Dilyniant**. Yn y cyfamser, paratoir yr allor. Anogir y bobl i wneud eu gweddïau eu hunain, gan ddweud, yn benodol, Weddi'r Arglwydd.

Daw'r diacon i ddarllen yr **Efengyl**.

Mae'r offeiriad yn llafarganu '**Credo** in unum Deum'. Disgwylir i'r bobl ddweud Credo'r Apostolion yn Saesneg.

Pan orffennir canu'r Gredo, mae'r Offrwm yn cychwyn. Yna, a hwythau'n dal i sefyll, gofynnir i'r bobl adrodd Gweddi'r Arglwydd, tra bo'r offeiriad yn golchi ei ddwylo, aroglderthir y cantorion, ac maent yn cusanu Llyfr yr Efengylau.

Yna, mae'r offeiriad yn ymgrymu o flaen yr allor ac yn troi o ofyn am in gweddïau.

Mae'r offeiriad yn rhoi'r gyntaf o sawl gweddi ddistaw, ac adwaenir hon fel y **Gyfrinach** (a rennir rhyngddo ef a Duw). Yna, mae'n troi, yn cyfarch y bobl, ac yn canu 'Dyrchefwch eich calonau' – '**Sursum corda**', ac yna'r **Rhagair**.

Mae'r cantorion yn ymateb wrth ganu **Sanctus** – 'Sanctaid, sanctaid, samctaid Arglwydd Dduw'. Pan fydd hyn wedi gorffen, mae'r offeiriad yn cychwyn ar y weddi ddifrifol: **Canon yr Offeren**, lle mae'n cysegru'r bara a'r gwin i fod yn Gorff a Gwaed Iesu Grist.

Cenir y gloch y tu fewn i'r eglwys, i rybuddio'r bobl fod Crist yn dod yn y bara cysegredig. Mae'r eiliad fwyaf difrifol ac uchafbwyntiol yn digwydd wrth i'r offeiriad Ddyrchafu Aberth yr Offeren (y bara cysegredig) yn Gorff Crist. Y cysegriad a elwir ar yr eiliad hon. Ar ôl y cysegriad, ceir cyfnod estynedig o ddistawrwydd, tra bo'r offeiriad yn dod â Chanon yr Offeren i ben.

Yna, mae'r offeiriad yn parhau i siantio **Gweddi'r Arglwydd**.

Mae'r cantorion yn siantio **Agnus Dei** dair gwaith, gan ofyn ddwywaith am drugaredd Duw, ac yna am heddwch Duw.

Mae'r offeiriad yn cusanu'r garegl, sy'n cynnwys Gwaed Crist, ac yna'n cusanu'r Llech Gusan [Pax Board], gan drosglwyddo'n symbolaidd heddwch Crist o'r garegl. Yna, rhennir y Llech Gusan â'r clerigwyr a'r bobl. (Mae'r Llech Gusan – a adwaenir weithiau fel Bwrdd Llech y Gusan – a

ddefnyddir heddiw yn seiliedig ar oroesiad o'r oesoedd canol diweddar sydd bellach yn Eglwys Sandon, Essex.)

Mae'r offeiriad ar ei ben ei hun yn gwneud ei **Gymun**, ac yna'n golchi'r llestri.

Mae'r offeiriad yn troi i gyfarch y bobl, ac yn dweud y weddi **Ôl-Gymun**. Mae'r bobl i barhau i ailadrodd Gweddi'r Arglwydd tan ddiwedd yr Offeren.

Cenir **Ite missa est** ('Ewch, mae'r Offeren ar ben), ac mae'r offeiriad yn gwneud ei weddiau olaf. Yna, mae'n adrodd yr **Efengyl Olaf** – adnodau agoriadol yr Efengyl yn ôl Ioan ('Yn y dechreuad yr oedd y Gair').

Cyn ymadael â'r eglwys, cyfarwyddir y bobl i ddweud gweddi i ddiolch i Dduw am yr Offeren hon, ac i weddio dros dderbyn ei hoffrwm. Maent i wneud arwydd y groes wrth iddynt ofyn am fendith Duw.

Mae'r Offeren yn un o ddeilliannau *Y Profiad o Addoli mewn Eglwys Gadeiriol ac Eglwys Blwyf Ganoloesol Ddiweddar*, project ymchwil o bwys, a gomisiynwyd gan Gyd-Raglen Ymchwil AHRC/ESRC ar Grefydd a Chymdeithas, a than arweiniad Yr Athro John Harper, Ysgol Cerddoriaeth, Prifysgol Bangor.

Prif amcan y project yw archwilio'r math o brofiad a gâi pobl wrth addoli tua diwedd yr Oesoedd Canol, a'r modd y gallwn gysylltu ein profiad presennol o ymweld ag eglwysi cadeiriol ac eglwysi sy'n dal i sefyll, o fewn y testunau, yr arteffactau a'r gerddoriaeth a ddefnyddid ar un adeg o'u mewn.

Am fwy o fanylion, ewch at www.experienceofworship.org.uk

Detholiad o ddeunydd © John Harper a Sally Harper.

**Hoffem ddiolch o galon i holl staff yr Amgueddfa Werin Cymru
am eu lletygarwch a'u cymorth.**

